Adroddiad Bioamrywiaeth – Cyngor Cymuned Llanwnda

Gwneir yr adroddiad yma mewn perthynas á Deddf yr Amgylchedd 2016, Adran 6.

Mae dalgylch Cyngor Cymuned Llanwnda yn cynnwys pentrefi Rhosgadfan, Rhostryfan, Rhos Isaf, Dinas, Llanwnda a Saron.

Mae oddeutu 2000 o bobl yn byw mewn tua 800 o gartrefi o fewn y dalgylch. Ceir yma ddwy ysgol gynradd, Rhosgadfan a Rhostryfan, a cheir hefyd nifer o fusnesau bychain yn cynnwys ffermydd, llety gwyliau, busnes gwerthu peiriannau, modurdai, tai bwyta a siopau nwyddau awyr agored.

Prif atyniad yr ardal yw'r tirwedd godidog, gyda'i mynyddoedd hardd, llwybrau cyhoeddus niferus a chyfleon i wylio a bod yn rhan o fyd natur anhygoel.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori â'r Cyngor yn uniongyrchol ar faterion fel cynllunio ac adeiladu eiddo.

Pan fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn camau o'r fath, maent yn cofnodi maint y gwrthwynebiadau a'r pwyntiau a wnaed yn y cofnodion a gofnodir gan y Clerc.

Mae gan y Cyngor Cymuned y gallu i ddylanwadu ar geisiadau cynllunio ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i lywodraethiant priodol ynghylch unrhyw ddyletswyddau statudol.

Mae gan y Cyngor Cymuned Bolisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth gyfredol, a lle bo'n briodol, ystyrir ffactorau amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau yn y cyfarfodydd.

Yn ystod 2025/26, bu'r Cyngor yn rhoi pwysau ar Grŵp Adra i weithredu ar eu haddewid i ddatblygu llecyn agored cyhoeddus ar Stad Gwel y Foel yn Dinas, yn unol a'u haddewid yn ystod eu cais cynllunio i ddatblygu stad o dai, gyda llecyn agored dynodedig lle mae bywyd gwyllt yn cael ei annog trwy blannu coed a phlanhigion.

Tendrau

Mae telerau ac amodau cytundebau tendr y Cyngor Cymuned yn nodi fod yn rhaid i dendrwr fod yn gyfarwydd á Pholisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth y Cyngor, a bod rhaid cyflwyno datganiad ysgrifenedig ynghylch a sut gwaredir á gwastraff gwyrdd o'r caeau chwarae. Rhaid bod gan y tendrwr drwydded gwaredu gwastraff dilys neu wedi gwneud cais am drwydded.

Mynwent Cefnfaes

Mae Cyngor Cymuned Llanwnda yn gyfrifol am dorri gwair y fynwent, yn ogystal á unrhyw waith tacluso cyffredinol, megis clirio llwybrau, gwagio biniau, a delio gyda tyrchod daear. Cafwyd adroddiadau am bryderon gan y cyhoedd yn ddiweddar ynghylch difrod gan dyrchod daear i'r tir o gwmpas beddau, ac mae presenoldeb tyrchod daear ar dir y fynwent yn broblem gyson o flwyddyn i flwyddyn. Nodir fod y Cyngor wedi cymryd penderfyniad i dreialu dulliau amgen o ddelio gyda tyrchod daear eleni, gyda'r bwriad i osgoi defnyddio dulliau lle bo'r tyrchod yn cael eu difa.

Cler: Avril Evans E-bost; clerc@ccllanwnda.cymru Ffón: 07842 710466

Yn ein dogfennau cytundeb, rydym yn cyfyngu'r defnydd o chwynladdwr i lwybrau'r fynwent yn unig, gan nodi'r angen i docio'r llysdyfiant lle bônt yn agos at feddau, neu ar y waliau terfyn. Rydym yn tocio tyfiant prysglwydd yn ystod mis Ebrill i greu ffurf gron gan docio'n fisol unrhyw ddrain a/neu mieri sydd wedyn yn tyfu trwyddynt.

Llwybrau Cyhoeddus

Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal nifer o lwybrau cyhoeddus ar draws y dalgylch. Trefnir fod y rhain yn cael eu cadw yn hygyrch i drigolion ac ymwelwyr. Ni chaniateir defnydd o chwynladdwr ar unrhyw ddarn o'n llwybrau cyhoeddus yn ôl ein cytundeb cynnal, ac mae'r gwaith yn gyfyngedig i dorri gwair a thocio llysdyfiant uwchben ac ar ochrau'r llwybrau.

Yn ogystal, nodir bod yn rhaid i'r contractwr gysylltu yn syth gyda Chlerc y Cyngor Cymuned os oes "Japanese Knotweed" yn tyfu ar y llwybrau. Nodir fod Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth y Cyngor Cymuned yn cyfyngu'r defnydd o blaladdwyr i geisiadau eithafol yn unig.

Bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn ennill grant Cronfa Gwynedd Ni eleni, ar gyfer gwireddu Prosiect Llwybrau. Mae trefniadau eisoes ar waith i ddylunio a chreu 4 arwydd i'w leoli ar 3 lwybr cyhoeddus ar draws y gymuned, 2 yn ward Dinas, 1 yn Rhosgadfan, ac 1 yn Rhostryfan. Bydd yr arwyddion yn cynnwys testun fydd yn nodi ffeithiau diddorol am leoliadau ar hyd y llwybrau, yn ogystal ag amlygu planhigion a bywyd gwyllt. Nod y prosiect yw annog mwy o ddefnydd o'r llwybrau, ac i addysgu'r cyhoedd am yr ardal leol a'i hanes a'i diwylliant..

Caeau Chwarae

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw 2 gae chwarae, 1 yn Rhostryfan (ger yr Ysgol Gynradd), ac 1 yn Rhosgadfan (ger yr Ysgol Gynradd). Nodir fod trefniadau mewn lle gan y Cyngor Cymuned i wagio'r biniau yno yn wythnosol, a bod offer diffygiol yn cae chwarae Rhosgadfan wedi ei ddisodli yn ddiweddar. Ymgymerir â gwaith torri gwair gan Gyngor Gwynedd.

Planhigion Estron ac Ymledol

Un pryder cyson sydd gan y Cyngor Cymuned yw presenoldeb planhigion estron fel Canglwm Siapaneaidd.

Mae'r Cyngor wedi adrodd ar sawl achlysur wrth Gyngor Gwynedd am bresenoldeb Japanese Knotweed mewn perthi ac ymylon ffyrdd, ac yn bryderus iawn nad ydym wedi derbyn unrhyw ymateb. Ein pryder yw y bydd y canglwm Siapaneaidd yn lledaenu'n hawdd, yn enwedig pan fo ffermwyr lleol yn ei dorri, a hynny'n groes i reolau, ac felly yn ei ledaenu.

Tir Comin

Mae'r Cyngor yn cadw golwg ar gyflwr y tir comin yn Rhosgadfan rhag difrod gan beiriannau, fel tractorau a beiciau cwad. Yn ddiweddar, sylwyd fod natur ecolegol cynefin y corsydd yn cael ei newid gan arferion rhai trigolion o fwydo anifeiliaid trwy ddod â thractorau trwm ar y tir comin, a chreu traciau dyfn a oedd yn annog tyfiant planhigion gwahanol i'r rhai arferol sydd yn y corsdir. Byddwn yn tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru at enghreifftiau o'r fath, er mwyn atal ymddygiad dinistriol sy'n tanseilio ecoleg bregus ardaloedd fel hyn.

Amcanion am 2026

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion canlynol yn 2026:

- addysgu aelodau'n well ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a bod yn agored i fynychu hyfforddiant perthnasol
- cadw'r adroddiad hwn a pholisïau perthnasol mewn cof bob amser wrth wneud penderfyniadau
- adolygu a mabwysiadu'r adroddiad hwn yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol

Creuwyd yr adroddiad hwn 25/10/25.